# Rheolwr Prosiect, Porth Gwyrdd

## Swydd-Ddisgrifiad

| | |
|---|---|
| Lleoliad | Swyddfeydd Foothold Cymru yn Llanelli |
| Yn Adrodd I | Cyfarwyddwr Prosiect |
| Telerau a hyd y Cytundeb | Hyd y 31ain Mai 2030 |
| Cyflog | £34,000 y flwyddyn |

### Trosolwg o'r Partneriaeth

Menter uchelgeisiol bum mlynedd yw Porth Gwyrdd wedi'i dylunio i ysbrydoli, ymgysylltu a chefnogi pobl 16-30 oed sydd ar y cyrion yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru i mewn i yrfaoedd gwyrdd, cynaliadwy.

Mae'r prosiect wedi'i gydgynhyrchu gyda ac er mwyn pobl ifanc sy'n anabl a/neu o gymunedau ethnig amrywiol, yn enwedig menywod, y rheiny sydd ar gyrion addysg a chyflogaeth, ar incwm isel, ac yn byw mewn ardaloedd gwledig. Arweinir y bartneriaeth gan Foothold Cymru, mewn partneriaeth ag Antur Cymru, Menter Gorllewin Sir Gâr, a PLANED, gan weithio ledled Sir Gâr, Ceredigion, Sir Benfro, a Phowys.

Ariennir prosiect Porth Gwyrdd gan Raglen Gyrfaoedd Gwyrdd Cronfeydd Segur Llywodraeth Cymru a'i reoli gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Nod y gronfa yw:

- Cynyddu ymwybyddiaeth o yrfaoedd gwyrdd ymhlith pobl ifanc, yn enwedig y rheiny sy'n anabl neu o gymunedau ethnig amrywiol.
- Cefnogi'r bobl ifanc hyn i fewn i yrfaoedd gwyrdd trwy ddatblygu sgiliau, profiad gwaith, a chyflogaeth hirdymor.
- Paratoi cyflogwyr i ddarparu cyfleoedd cynhwysol.
- Rhannu gwersi er mwyn dylanwadu ar bolisi ac arferion, gan yrru arloesedd a chynhwysiant yn economi werdd Cymru a thu hwnt.

Asedau Segur
Camau Cynaliadwy Cymru
Dormant Assets
Sustainable Steps Wales
Ddarperir gan
CRONFA GYMUNEDOL LOTERI GENEDLAETHOL
Delivered by
THE NATIONAL LOTTERY COMMUNITY FUND

## Pwrpas y Rôl

Bydd y Rheolwr Prosiect yn arwain gweithredu effeithiol y Porth Gwyrdd, gan sicrhau bod y bartneriaeth yn cyrraedd ei thargedau uchelgeisiol ac yn arwain at ganlyniadau ystyrlon, mesuradwy i bobl ifanc. Lleolir y rôl yn Foothold Cymru a bydd angen cydweithio agos â holl bartneriaid y consortiwm, cyflogwyr, darparwyr hyfforddiant, a rhanddeiliaid.

## Cyfrifoldebau Allweddol

- Arwain a chydlynu gweithredu holl weithgareddau’r prosiect, gan sicrhau bod cerrig milltir, deilliannau a chanlyniadau yn cael eu cyrraedd yn brydlon ac o fewn y gyllideb.
- Bod yn brif pwynt cyswllt ar gyfer y bartneriaeth, gan feithrin perthynas gydweithredol gref rhwng Foothold Cymru, Antur Cymru, Menter Gorllewin Sir Gâr, Planed, a rhanddeiliaid eraill.
- Goruchwylio rheolaeth y tîm prosiect sydd wedi'i seilio’n Foothold Cymru.
- Datblygu a chynnal cynlluniau prosiect cadarn, cofrestri risg, a fframweithiau monitro.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion yr arianwyr, gan gynnwys diogelu, effaith amgylcheddol, a safonau iaith Gymraeg.
- Cydweithio â'r cyfarwyddwr prosiect a'r swyddog monitro a gwerthuso ar gasglu, dadansoddi, ac adrodd data monitro a gwerthuso, gan sicrhau bod gwersi yn cael eu dogfennu a'u rhannu.
- Goruchwylio comisiynu a chyflenwi hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc ledled pob rhanbarth, gan gynnwys hyfforddiant sgiliau gwyrdd achrededig (a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Choleg Sir Gâr/Ceredigion).
- Cydweithio â'r cyfarwyddwr prosiect a'r swyddog monitro a gwerthuso i ledaenu gwersi, gan gynnwys datblygu Llawlyfr Porth Gwyrdd, digwyddiadau, a briffio polisi i rannu gwersi a dylanwadu ar arfer ehangach.
- Cynrychioli'r bartneriaeth mewn cyfarfodydd allanol, fforymau, a'r cyfryngau fel y bo angen.

Asedau Segur
Camau Cynaliadwy Cymru

Dormant Assets
Sustainable Steps Wales

Ddarperir gan
CRONFA GYMUNEDOL LOTERI GENEDLAETHOL

Delivered by
THE NATIONAL LOTTERY COMMUNITY FUND

## Manyleb y Person

### Hanfodol

- Hanes cryf o reoli prosiectau neu raglenni cymhleth, aml-bartner, yn ddelfrydol yn y sectorau ieuenctid, addysg, cyflogaeth, neu gymunedol.
- Sgiliau rheoli prosiect cryf, gan gynnwys cynllunio, monitro, gwerthuso, a rheoli ariannol.
- Profiad o weithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws sectorau.
- Gallu arwain, annog, a rheoli timau amlddisgyblaethol.
- Sgiliau cyfathrebu, negodi, a rhyngbersonol rhagorol.
- Ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant, gyda dealltwriaeth gref o'r rhwystrau sy'n wynebu pobl ifanc anabl a'r rheiny o gefndiroedd ethnig amrywiol.
- Profiad yn monitro, gwerthuso, ac adrodd i gyllidwyr.
- Gallu gweithio'n annibynnol ac yn rhan o dîm, yn rheoli blaenoriaethau a therfynau amser.
- Trwydded yrru lawn y DU a pharodrwydd i deithio ledled Canolbarth a De-orllewin Cymru.

**Dymunol**

- Profiad mewn prosiectau sector sgiliau gwyrdd, cynaliadwyedd, neu amgylcheddol.
- Sgiliau iaith Gymraeg.
- Profiad o weithio mewn cyd-destun gwledig neu mwy nag un sir.
- Cynefindra â chyflogaeth gyda chefnogaeth neu arferion recriwtio cynhwysol.
- Profiad o gyd-gynhyrchu neu ddylunio prosiectau cyfranogol.
- Dealltwriaeth o dirwedd bolisi sgiliau gwyrdd a chyflogaeth ieuenctid yng Nghymru.
- Gwybodaeth am reoli prosiectau Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol neu raglenni tebyg.

Arall

- Maer partneriaeth wedi ymrwymo i weithio'n hyblyg a chefnogi llesiant staff.

Asedau Segur
Camau Cynaliadwy Cymru
Dormant Assets
Sustainable Steps Wales
Ddarperir gan
CRONFA GYMUNEDOL LOTERI GENEDLAETHOL
Delivered by
THE NATIONAL LOTTERY COMMUNITY FUND

- Mae'r swydd hon yn amodol ar wiriad manylach DBS.
- Trwydded yrru lawn y DU a pharodrwydd i deithio ar draws y pedair sir sy’n rhan o’r prosiect.